



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 1879 (Cy.188)

2002 No. 1879 (W.188)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Lleoedd a
Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru)
2002**

**The Education (Assisted Places)
(Amendment) (Wales) Regulations
2002**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997 ("Rheoliadau 1997") mewn perthynas â blwyddyn ysgol yn dechrau ar 1 Medi 2002 neu wedyn. Mae Rheoliadau 1997 yn rhagnodi trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i barhau i gael lleoedd a gynorthwyir mewn ysgolion annibynnol yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997, er bod y cynllun cymorth lleoedd wedi'i ddileu gan adran 1 o'r Ddeddf honno.

Mae'r swm sydd i'w dynnu yn yr incwm "perthnasol" mewn perthynas â pherthnasau dibynnol o dan reoliad 10(4) a (6) o Reoliadau 1997 yn cael ei gynyddu o £1,430 i £1,465.

Ar lefel incwm benodol, neu o dan y lefel honno, nid yw'r ffioedd yn cael eu casglu o gwbl. Mae'r lefel honno yn cael ei chynyddu i £11,368 yn lle £11,116, gyda chynnydd cyfatebol yn y swm nad yw'n cael ei gasglu os yw'r incwm "perthnasol" yn fwy na'r swm hwnnw.

These Regulations amend the Education (Assisted Places) Regulations 1997 ("the 1997 Regulations") in respect of a school year beginning on or after 1st September 2002. The 1997 Regulations prescribe arrangements for pupils who are eligible to continue to hold assisted places at independent schools by virtue of section 2 of the Education (Schools) Act 1997, notwithstanding the abolition of the assisted places scheme by section 1 of that Act.

The deduction to be made in "relevant" income in respect of dependent relatives under regulation 10(4) and (6) of the 1997 Regulations is increased from £1,430 to £1,465.

The level of income at or below which fees are to be wholly remitted is set at £11,368 instead of £11,116, with corresponding increases in the extent of remission where "relevant" income exceeds that sum.

2002 Rhif 1879 (Cy.188)**2002 No. 1879 (W.188)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) (Diwygio) (Cymru) 2002****The Education (Assisted Places) (Amendment) (Wales) Regulations 2002***Wedi'u gwneud**18 Gorffennaf 2002**Yn dod i rym**1 Medi 2002**Made**18th July 2002**Coming into force**1st September 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(a), â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol ac â chynrychiolydd ysgolion sy'n darparu lleoedd a gynorthwyr o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(1), (2), (5) a (9) o'r Ddeddf honno ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2002 neu wedyn.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) 1997

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) 1997(c) fel a ganlyn.

The National Assembly for Wales has consulted, in accordance with section 3(7) of the Education (Schools) Act 1997(a), such bodies as appear to it to be appropriate and representative of schools which provide assisted places under section 2(1) of that Act.

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 3(1), (2), (5) and (9) of that Act and now vested in the National Assembly for Wales(b), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations are called the Education (Assisted Places) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and shall come into force on 1st September 2002.

(2) These Regulations apply to Wales only.

(3) These Regulations apply in relation to any school year beginning on or after 1st September 2002.

Amendment of the Education (Assisted Places) Regulations 1997

2.-(1) The Education (Assisted Places) Regulations 1997(c) are amended as follows.

(a) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

(b) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1997/1968, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1726, O.S. 1998/1966, O.S. 1999/1504, O.S. 2000/1938 (Cy.136) ac O.S. 2001/2680 (Cy.221).

(a) 1997 c.59. Section 3 is amended by section 130 of the School Standards and Framework Act 1998 (c.31).

(b) The functions of the Secretary of State under section 3 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1997/1968, amended by S.I. 1998/1726, S.I. 1998/1966, S.I. 1999/1504, S.I. 2000/1938 (W.136) and S.I. 2001/2680 (W.221).

(2) Yn rheoliad 10(4) a (6), yn lle "£1,430" ym mhob man lle y'i gwelir, rhoddir "£1,465".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle "£11,116" rhoddir "£11,368".

(4) Yn lle'r tabl sy'n dilyn paragraff 2(1) o'r Atodlen honno, rhoddir y tabl canlynol -

(2) In regulation 10(4) and (6), for "£1,430" in each place where it appears there is substituted "£1,465".

(3) In paragraph 1 of Schedule 2, for "£11,116" there is substituted "£11,368".

(4) For the table following paragraph 2(1) of that Schedule there is substituted the following table-

"TABLE

<i>(1)</i>	<i>(2)</i>	<i>(3)</i>	<i>(4)</i>
<i>Part of relevant income to which specified percentage applies</i>	<i>Only assisted pupil (%)</i>	<i>Each of two assisted pupils (%)</i>	<i>Each of three assisted pupils (%)</i>
That part (if any) which exceeds £11,202 but does not exceed £12,181	9	6.75	5.25
That part (if any) which exceeds £12,181 but does not exceed £13,175	12	9	7
That part (if any) which exceeds £13,175 but does not exceed £15,147	15	11.25	8.75
That part (if any) which exceeds £15,147 but does not exceed £18,188	21	15.75	12.25
That part (if any) which exceeds £18,188 but does not exceed £22,151	24	18	14
That part (if any) which exceeds £22,151	33	24.75	19.25

"

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

18 Gorffennaf 2002

18th July 2002

John Marek

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National
Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

2002 Rhif 1879 (Cy.188)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a
Gynorthwyr) (Diwygio) (Cymru)
2002

2002 No. 1879 (W.188)

EDUCATION, WALES

The Education (Assisted Places)
(Amendment) (Wales) Regulations
2002

©© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W115/08/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090547-4



9 780110 905471